# LEWIS, THOMAS (fl. 1731-49), cyfieithydd a chynghorwr Methodistaidd

**Enw:** Thomas Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfieithydd a chynghorwr Methodistaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Dywedir ei fod yn frawd i John Lewis, argraffydd. Tybir mai ef a drosodd yn Gymraeg un o lyfrau Bunyan, sef *Bywyd a Marwolaeth yr Annuwiol dan enw Mr. Drygddyn* (Caerfyrddin, 1731). Apwyntiwyd ef yn gynghorwr cyhoeddus yn sasiwn Watford, 1743, ond prin y gellir dweud mai ef yw'r ' Thos. Lewis ' a ddewiswyd i gynghori'n breifat yn ' Pentruch ' a ' Newhouse.' Y mae'n amheus hefyd ai ef ynteu Thomas Lewis, curad Merthyr Cynog (ficer Llanddew 1741-1783), yw'r g r a gyfrifid yn brif arolygwr seiadau Brycheiniog. Yn ddiweddarach yn 1743 fe'i penodwyd i arolygu'r seiadau rhwng y ' Passage ' (dros Hafren) ac afon Wysg, ac i gynorthwyo'r brodyr Saesneg pan fyddai angen. Enwir rhyw Thomas Lewis yn aelod o sasiynau ym Morgannwg yn 1747-9 yn adroddiadau Thomas William, Eglwys Ilan.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, v, 8; xxviii, 38-40; xxix, 28, 70-3, 134; xxx, 30

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 360

M. H. Jones, *The Trevecka Letters, or the unpublished MSS. correspondence of Howell Harris and his contemporaries* (1932), 274, 278

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 205


## Gweithiau

John Bunyan, Thomas Lewis, *Bywyd a marwolaeth yr annuwiol dan enw Mr. Drygddyn* (Caerfyrddin 1731)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734494

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu